Heddlu Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein cymunedau, gyda'n gilydd Safeguarding our communities, together

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Cylch Gorchwyl**
**Craffu ar y Cynllun Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau**

**1. Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer gweithgarwch craffu aelodaeth Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

**2. Diben craffu**

Nododd archwiliad gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) bod Heddlu Dyfed-Powys angen gwella ymgysylltu cymunedol y timoedd Plismona Bro. Er mwy helpu i hwyluso'r gwelliant hwn, mae Heddlu Dyfed-Powys yn ceisio ymgymryd â chraffu annibynnol ar feysydd megis cynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau. Aeth Heddlu Dyfed-Powys at SCHTh i gydweithio ar y gweithgarwch hwn.

Diben cyffredinol y craffu hwn yw asesu pa un ai a yw'r cynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau arfaethedig yn rhesymol, cymesur a gofynnol.

Ymagwedd tuag at fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn sy'n cynnwys y canlynol yw plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel plismona sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau:

- Nodi problem benodol
- Dadansoddi trylwyr i ddeall y broblem
- Datblygu ymateb wedi'i deilwra
- Asesu effeithiau'r ymateb
- Ymagwedd tuag at ddatblygu ymyriadau targedig, yn hytrach nag ymyrraeth ei hun, yw plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau.

Gan hynny, gellir gweithredu ymagwedd plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau i unrhyw drosedd a phroblem anhrefn. Ni ddylid ei ystyried fel dewis amgen i ymyraethau yn y pecyn offer lleihau trosedd. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio ar y cyd â nhw.

Gellir disgrifio plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau yng nghyd-destun y model datrys problemau SDAYA (sganio, dadansoddi, amcan, ymateb, asesu).

Mae'r model yn tybio bydd y datrysiad a ddatblygir i fynd i'r afael ag achosion craidd problem yn effeithiol drwy adnabod a deall yr achosion craidd neu'r amodau sy'n ei galluogi i barhau.

Mae pum cam i'r model SDAYA.

**S**ganio – nodi a blaenoriaethu troseddau a phroblemau anhrefn posibl.
**D**adansoddi – dadansoddi problemau posibl, drwy gasglu gwybodaeth a chudd-wybodaeth i adnabod achosion sylfaenol y broblem.
**A**mcan– a oes amcan SDAYA perthnasol wedi'i nodi.
**Y**mateb – datblygu a gweithredu gweithgareddau wedi'u teilwra er mwyn mynd i'r afael ag achosion y broblem, fel y nodwyd yn y cam dadansoddi.
**A**sesu - mesur effaith *yr ymateb i brofi pa un ai a gafodd yr effaith ddymunol a gwneud newidiadau i'r ymateb os oes angen.*

**3. Strwythur y Panel**

Bydd Aelodaeth y panel Craffu'n cynnwys:-

- Cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cynrychiolydd o'r Heddlu, arbenigwr plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau (yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau)
- Gwirfoddolwyr o'r cynlluniau canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny);
    - Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
    - Panel Sicrhau Ansawdd
    - Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
    - Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

**Trefniadau Gweithredu**

- Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb.
- Bydd cyfarfodydd yn para tua hanner diwrnod.
- Bydd staff SCHTh yn dewis dau neu dri chynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau i graffu arnynt o restr thematig a baratowyd gan Arweinydd Datrys Problemau'r Heddlu.
- Bydd pwynt cyswllt yn cael ei bennu gan arweinydd Datrys Problemau Heddlu Dyfed-Powys yn y lle cyntaf neu gynrychiolydd addas o'r Ganolfan Atal Ganolog.
- Rhennir gwybodaeth achos o'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau fyw yn ystod y cyfarfod. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod.
- Bydd achosion yn cael eu golygu gan Heddlu Dyfed-Powys.
- Bydd yr holl aelodau'n cael gwybod os bydd cyfarfod yn cael ei ganslo.
- Bydd crynodeb o'r canfyddiadau'n cael ei grynhoi gan Weithiwr Achos Safon Gwasanaeth SCHTh a'i rannu â'r Heddlu a'r Pennaeth Sicrwydd am ei gywirdeb.

**5. Cylch Gorchwyl**

Mae'r panel craffu wedi'i sefydlu i ddarparu craffu annibynnol o gynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn effeithiol, cymesur a phriodol, ac er mwyn argymell unrhyw newidiadau.

Bydd pob cyfarfod yn thematig, a bydd pob pwnc yn cael ei ddewis gan SCHTh ar ôl ystyried rhestr o gynlluniau sy'n weithredol neu sydd wedi eu cau o fewn y 3 mis diwethaf cyn y cyfarfod panel o'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau.

**4. Amlder Cyfarfodydd**

Bydd y Panel yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn, sef unwaith bob deufis. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol os yw'r Comisiynydd a'r Heddlu'n cytuno bod busnes brys i'w drafod.

**5. Gofynion Cyfranogiad**

- Gofynnir i'r holl aelodau arwyddo cytundeb cyfrinachedd a fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- Rhaid bod yn aelod presennol o unrhyw gynllun gwirfoddoli SCHTh neu Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Dyfed-Powys.